# STRATEGAETH YMGYSYLLTU Â DEFNYDDWYR GWASANAETH

**CYFLWYNIAD**

Mae gwrando'n weithredol ar fabwysiadwyr a phlant a phobl ifanc mabwysiedig wedi bod yn ganolog i weithgareddau'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ers ei sefydlu yn 2014. Mae cydgynhyrchu yn un o egwyddorion sylfaenol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2016. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu dull y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth a chydgynhyrchu. Mae'r GMC yn gwerthfawrogi ymgysylltu â'r plant, y bobl ifanc a'r oedolion sy'n ymwneud â'r gwasanaeth ar bob lefel. Mae pob cynllun gwella'r GMC yn deillio o adborth a chyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth. Mae peth ymgysylltu'n cael ei arwain yn genedlaethol ar ran yr holl wasanaethau ond ni fydd yn gwthio'r trefniadau sydd ar waith mewn rhanbarthau ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol i'r cefndir. Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i sicrhau bod ymgysylltu'n ystyrlon ac yn cael ei weithredu ar draws pob lefel – yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

Mae amcanion y gwasanaeth yn cynnwys:

- Cynnig gwasanaethau mabwysiadu o safon yn gyson trwy Gymru
- Sicrhau cyn lleied o oedi â phosibl wrth leoli plant i'w mabwysiadu
- Sicrhau'r dewis ehangaf posibl o leoliadau mabwysiadu i blant
- Sicrhau gwybodaeth gyson o safon i ddarpar fabwysiadwyr ni waeth pa asiantaeth y maent yn cysylltu â hi
- Sicrhau bod hyfforddiant ac asesu o safon ar gael yn gyson ar gyfer darpar fabwysiadwyr
- Prosesau cysylltu, paru a chyflwyno o safon ar gyfer plant a darpar fabwysiadwyr
- Sicrhau bod gwasanaethau cymorth mabwysiadu cynhwysfawr ar gael i bawb y mae mabwysiadu yn effeithio arnynt ar yr adeg y mae eu hangen arnynt
- Cydweithio rhwng asiantaethau mabwysiadu rhanbarthol, awdurdodau lleol, iechyd ac addysg.

At ddiben y strategaeth hon, diffinnir **ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth** fel:

- cynnwys pobl sydd â phrofiad byw o fabwysiadu a gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru
- rhannu barn ynghylch profiad defnyddwyr gwasanaeth yn ymwneud â darparu gwasanaethau
- cynnwys defnyddwyr gwasanaeth yn uniongyrchol wrth ddylunio, datblygu a darparu gwasanaethau.

**Ein defnyddwyr gwasanaeth**

- Plant sydd â chynllun mabwysiadu, yn cael eu lleoli i'w mabwysiadu neu'n cael eu mabwysiadu
- Darpar fabwysiadwyr a mabwysiadwyr wedi'u cymeradwyo
- Teuluoedd biolegol
- Oedolion mabwysiedig
- Perthnasau plant sydd wedi cael eu mabwysiadu

**Ymrwymiad y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**

Byddwn yn ymgysylltu â'n defnyddwyr gwasanaeth ar bob cyfle a bydd cyfranogiad gweithredol yn cael ei annog i sicrhau dylanwad a chyfraniad uniongyrchol o gam cynnar. Byddwn yn ymgynghori mewn amrywiaeth o ffyrdd a byddwn bob amser yn darparu gwybodaeth glir, gryno a pherthnasol am y gwasanaeth yr ydym yn ceisio gwybodaeth amdano, gan ystyried dewisiadau cyfranogwyr o ran iaith a chyfrwng. Rydym am i bobl deimlo eu bod yn gallu ymgysylltu'n hawdd a bydd unrhyw rwystrau'n cael eu nodi a'u datrys; bydd materion a godir yn cael eu hystyried yn briodol a bydd newidiadau o ganlyniad i adborth yn cael eu cyfleu mewn modd amserol.

Ymhlith y meysydd ffocws allweddol ar gyfer darparu gwasanaethau a lle caiff ymgysylltu ei groesawu mae’r canlynol:

- y broses ymholi ac asesu mabwysiadwyr
- argaeledd ac ansawdd yr hyfforddiant
- amrywiaeth ac ansawdd y cymorth mabwysiadu
- eglurder y broses a rhannu gwybodaeth
- proffesiynoldeb y staff
- unrhyw bryderon neu rwystrau i ddefnyddio gwasanaethau, materion ynglŷn â chyswllt, gwaith stori bywyd a rhannu gwybodaeth, gan gynnwys cyfleoedd posibl ar gyfer cefnogaeth well

Caiff pob defnyddiwr gwasanaeth ei wahodd i rannu ei farn, cymryd rhan mewn gweithgareddau a llywio'r broses o ddarparu gwasanaethau trwy amrywiaeth o ddulliau gan gynnwys digwyddiadau wedi'u trefnu megis grwpiau ffocws a gweithdai, grwpiau cymorth a holiaduron ac arolygon gwerthuso rheolaidd.

**CANLYNIADAU**

Mae'r strategaeth hon yn dangos ymrwymiad i ddysgu oddi wrth waith y rhanbarthau, yr awdurdodau lleol a'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac felly ei bwriad yw gweithio tuag at y canlyniadau canlynol:

- Cynyddu dylanwad defnyddwyr gwasanaeth ac aelodau staff wrth ddatblygu gwasanaethau mabwysiadu yn barhaus
- Gwella profiad defnyddwyr gwasanaeth trwy ymgysylltu'n weithredol â staff a defnyddwyr gwasanaeth a gweithredu ar eu hadborth
- Cefnogi rhanbarthau, Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac awdurdodau lleol wrth gasglu a defnyddio adborth defnyddwyr gwasanaeth i ddeall a gwella profiad defnyddwyr yn barhaus
- Sicrhau bod safbwyntiau defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu clywed ar bob lefel o’r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Galluogi defnyddwyr gwasanaeth i ddylanwadu ar ddatblygiad, llywodraethiant, polisi ac arfer yn y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, ac arwain y rhain o bryd i’w gilydd

Bydd ymgysylltu'n cynnwys y canlynol:

**CENEDLAETHOL**

- Lleisiau Mabwysiadu: Adoption UK Cymru
- Baromedr Mabwysiadu Blynyddol AUK
- Arolygon cenedlaethol
- Y Gwasanaeth 'Cysylltu' (gan gynnwys Lleisiau Mabwysiadu)
- Grwpiau Diddordeb Arbennig – AFA Cymru
- Cylchlythyr blynyddol y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
- Cylchlythyr Gwaith Taith Bywyd
- Hyrwyddwyr Mabwysiadu

**RHANBARTHOL AC ASIANTAETHAU MABWYSIADU GWIRFODDOL**

- Mabwysiadwyr fel aelodau gweithredol o weithgorau datblygu gwasanaethau
- Recriwtio Hyrwyddwyr Mabwysiadu i gymryd rhan mewn cynllunio a darparu gwasanaethau
- Mabwysiadwyr, oedolion a fabwysiadwyd yn blant a rhieni biolegol fel aelodau o Baneli Mabwysiadu
- Cynnwys mabwysiadwyr, oedolion mabwysiedig a rhieni biolegol wrth ddarparu hyfforddiant a chymorth rhwng cymheiriaid
- Cynnwys plant a phobl ifanc trwy grwpiau Cysylltiedig
- Ymgysylltu â rhieni biolegol trwy ddigwyddiadau arferol
- Adborth rheolaidd am brosesau mabwysiadu e.e. recriwtio, asesu, hyfforddiant panel a pharatoi, a chymorth mabwysiadu
- Cylchlythyrau mabwysiadwyr – rhanbarthol, Gwasanaethau Mabwysiadu Gwirfoddol

**GWEITHGAREDDAU I DDEFNYDDWYR GWASANAETH ALLWEDDOL**

**CENEDLAETHOL**

| LIEISIAU MABWYSIADU |
| --- |
| **Lleisiau Mabwysiadu** yw'r mecanwaith y mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi ceisio'i ddefnyddio i ymgorffori gwrando gweithredol a chydgynhyrchu gyda'i ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae Adoption UK Cymru, ar y cyd â'r asiantaethau mabwysiadu rhanbarthol, yn cynnal digwyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer mabwysiadwyr, oedolion mabwysiedig a phlant a phobl ifanc mabwysiedig (gweler Connect isod), yn ogystal â grwpiau ffocws bach, grwpiau cymorth, digwyddiadau ac arolygon rhanddeiliaid. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnig cyfleoedd i gasglu profiadau a safbwyntiau pobl ifanc ac oedolion mabwysiedig i lywio datblygiad gwasanaethau ymhellach. Bydd y rhanbarthau'n gweithio'n agos gydag AUK i hysbysebu a hyrwyddo unrhyw ddigwyddiadau a byddant yn ymateb i unrhyw faterion a nodir trwy ymgynghoriadau ehangach. |
| **Baromedr Mabwysiadu Blynyddol AUK** |
| Bob blwyddyn mae Adoption UK yn cynnal arolwg ledled y Deyrnas Gyfunol sy'n cynnwys teuluoedd mabwysiadol yn ogystal ag archwiliad o bolisïau mabwysiadu ar draws y 4 gwlad i asesu'r hinsawdd fabwysiadu bresennol ac mae'n cyhoeddi adroddiad y **Baromedr Mabwysiadu**. Trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol, mae Tîm Canolog y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, Asiantaethau Mabwysiadu Rhanbarthol, Awdurdodau Lleol ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yn annog mabwysiadwyr i gymryd rhan yn yr arolwg bob blwyddyn. Y canfyddiadau yn yr adroddiad yw'r sail ar gyfer cytuno ar waith Lleisiau Mabwysiadu. Yn ogystal, rhennir y canfyddiadau â Bwrdd Llywodraethiant y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a Byrddau Rheoli Rhanbarthol ac mae unrhyw gamau sy'n codi yn dod yn rhan o'r cynllun gwasanaeth blynyddol. |
| **Ymgysylltu** |
| Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc Mabwysiedig, sy'n cael ei gydlynu a'i reoli ar ran y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol gan AUK Cymru yn rhoi pwyslais sylweddol ar gydweithio ac yn gweithredu o fewn pedair elfen. Gall plant a phobl ifanc mabwysiedig gael mynediad i'r gwasanaeth hwn ni waeth pa Wasanaeth Mabwysiadu Rhanbarthol sy'n gyfrifol am eu cymorth mabwysiadu. Mae'r elfennau hyn yn cynnwys y grwpiau cymorth **Connected**, darparu gwybodaeth ac arweiniad, codi ymwybyddiaeth a sgiliau a chasglu barn a lleisiau pobl ifanc sydd wedi'u mabwysiadu.<br><br>**Cynghorau Ieuenctid Mabwysiedig** – Ar hyn o bryd mae dau grŵp ymgysylltu o bobl ifanc a fydd yn cael eu cefnogi i rannu barn y grŵp a, phan fo modd, mynychu digwyddiadau byrddau llywodraethiant gyda'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol a digwyddiadau rheoli rhanbarthol eraill o leiaf unwaith y flwyddyn. Yn ogystal, gwahoddir uwch aelod o dîm rheoli'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i fynychu cyfarfodydd y Cyngor Ieuenctid i glywed eu barn a chymryd cyfrifoldeb am adrodd am faterion a godir ac ymateb iddynt. |
| **Hyrwyddwyr Mabwysiadu** |

| |
|---|
| Mae mabwysiadwyr profiadol yn cael eu recriwtio'n rheolaidd fel **Hyrwyddwyr Mabwysiadu** i helpu i hyrwyddo a rhannu barn realistig am fabwysiadu, ac i rymuso eraill i ystyried gwneud cais. Mae'r grŵp yn ymwneud â datblygu dulliau casglu ac ymgyrchu recriwtio ar lefel genedlaethol a lleol. |
| **Cylchlythyr blynyddol y GMC** |
| Cyhoeddir cylchlythyr cyffredinol sy'n cynnwys gwybodaeth o bob un o'r pum rhanbarth, Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol ac AFA Cymru yn flynyddol. Bydd rhifynnau yn y dyfodol hefyd yn cynnwys llais mabwysiadwr. |
| **Cylchlythyr Gwaith Taith Bywyd** |
| Mae cylchlythyr cyffredinol sy'n cynnwys gwybodaeth o bob un o'r pum rhanbarth a'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yn cael ei gyhoeddi bob blwyddyn. Bydd rhifynnau yn y dyfodol hefyd yn cynnwys lleisiau defnyddwyr gwasanaeth lle mae'n bosibl gwneud hynny. |

**RHANBARTH/ASIANTAETH MABWYSIADU GWIRFODDOL**

**YMGYSYLLTU AC ADBORTH RHEOLAIDD *(Gwybodaeth, Ymgynghori a Chyfranogi/Cyfranogiad)***

| GWEITHGAREDD | DULL | YMATEB | CANLYNIAD |
|---|---|---|---|
| **Darpar fabwysiadwyr** | | | |
| Mae llais darpar fabwysiadwyr yn cael ei glywed. | Cwblheir gwerthusiadau Defnyddwyr Gwasanaeth yn ystod y camau canlynol:<br>• Ymholiad cychwynnol<br>• Digwyddiad gwybodaeth<br>• Asesiad mabwysiadwyr<br>• Hyfforddiant cyn mabwysiadu<br>• Panel Mabwysiadu<br><br>Darperir taflenni cwynion a chanmoliaeth fel mater o drefn fel rhan o becynnau gwybodaeth. | Caiff adborth ei gasglu'n rheolaidd gan Reolwyr Tîm yn y rhanbarthau ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol.<br><br>Rhennir gwybodaeth gydag ymarferwyr ar sail unigol a grŵp.<br><br>Caiff prosesau eu haddasu lle bo hynny'n briodol.<br><br>Caiff adborth sy'n ymwneud â'r panel ei rannu'n rheolaidd ag aelodau o'r rhestr ganolog a datblygir cynlluniau gweithredu lle bo angen i fynd i'r afael ag unrhyw themâu neu faterion.<br><br>Caiff Byrddau Rheoli Rhanbarthol eu diweddaru trwy adroddiadau Rheoliad 39[1] ac unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt fel | Mae'r gwasanaeth yn dod i ddeall profiad mabwysiadwyr ar wahanol gamau o'r broses atgyfeirio ac asesu.<br><br>Mae llais y mabwysiadwyr yn cael ei glywed ac mae'n llywio datblygiad y gwasanaeth yn lleol ac yn genedlaethol.<br>Mae profiad defnyddwyr gwasanaeth yn gwella. |

[1] Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019/Adroddiad Adolygiad o'r Gwasanaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | rhan o'r cynllun gwasanaeth parhaus bob chwarter. | |
| **Mabwysiadwyr cymeradwy** | | | |
| Mae mabwysiadwyr yn llywio ac yn chwarae rhan uniongyrchol yn y broses o ddarparu gwasanaethau. | Mae mabwysiadwyr yn cwblhau holiaduron gwerthuso ar ôl cysylltu, paru a chyflwyno.<br><br>Gwahoddir mabwysiadwyr i fod yn rhan o restr ganolog o aelodau paneli mabwysiadu.<br><br>Mae mabwysiadwyr yn darparu hyfforddiant fel rhan o hyfforddiant mabwysiadu cyn ac ar ôl cymeradwyo.<br><br>Mae mabwysiadwyr yn cwblhau holiaduron gwerthuso ar ôl mynychu grwpiau cymorth cyn ac ar ôl lleoli.<br><br>Mabwysiadwyr sy'n ymwneud â darparu cymorth cymheiriaid naill ai ar sail 1:1 neu grŵp.<br><br>Mae **Hyrwyddwyr mabwysiadu** yn cael eu cynnwys yn y broses recriwtio trwy fideos, podlediadau, cyfryngau cymdeithasol a digwyddiadau eraill e.e. Wythnos Genedlaethol Mabwysiadu | Caiff adborth ei gasglu'n rheolaidd gan Reolwyr Tîm yn y rhanbarthau a'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol.<br><br>Mae'r rhanbarth/Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol yn sicrhau bod gan bob panel fabwysiadwr profiadol sy'n bresennol.<br><br>Lle bo'n bosibl, mae mabwysiadwr yn ymwneud â darparu hyfforddiant cyn ac ar ôl mabwysiadu.<br><br>Defnyddir barn mabwysiadwyr i bennu rhaglenni hyfforddi a chymorth.<br><br>Caiff Byrddau Rheoli Rhanbarthol eu diweddaru trwy adroddiadau Rheoliad 39[2] ac unrhyw gamau gweithredu y cytunwyd arnynt fel rhan o'r cynllun gwasanaeth parhaus bob chwarter. | Mae profiadau mabwysiadwyr o gysylltu, paru a chyflwyno yn cael eu deall a'u defnyddio i lywio arfer. Mae profiad mabwysiadwyr a phlant o'r gwasanaeth yn gwella.<br><br>Mae mabwysiadwyr yn llywio'r broses o ddarparu gwasanaethau'n uniongyrchol.<br><br>Mae 'profiad byw' mabwysiadwyr yn rhoi darlun realistig i unrhyw ddarpar fabwysiadwyr. |
| **Rhieni biolegol a pherthnasau eraill** | | | |
| Mae rhieni a pherthnasau biolegol yn llywio ac yn chware rhan uniongyrchol yn y broses o ddarparu gwasanaethau. | Mae rhieni biolegol a/neu berthnasau eraill yn rhan o restr ganolog o aelodau paneli mabwysiadu. | Caiff llais rhieni biolegol ei gofnodi trwy'r cyfryngau priodol a'i ddefnyddio wrth hyfforddi a chefnogi aelodau paneli mabwysiadu a lle bo hynny'n addas mewn hyfforddiant i ymarferwyr. | Mae lleisiau rhieni biolegol a pherthnasau eraill yn cael eu clywed a defnyddir eu profiad i lywio'r gwaith o ddatblygu a darparu gwasanaethau. Mae profiad |

[2] Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019/Adroddiad Adolygiad o'r Gwasanaeth

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mae pob rhaglen hyfforddi cyn mabwysiadu yn cynnwys mewnbwn gan aelod o'r teulu biolegol. | | teuluoedd biolegol o'r gwasanaeth yn gwella. |
| **Oedolion Mabwysiedig** | | | |
| Mae oedolion mabwysiedig yn cael cyfle i rannu eu profiad o gael eu mabwysiadu. | Mae AUK yn cynnal grwpiau ar gyfer mabwysiadwyr o oedolion ac ymdrinnir ag unrhyw faterion trwy drefniadau ymgynghori ehangach y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.<br><br>Mae oedolyn mabwysiedig yn rhan o rai o'r rhestrau canolog rhanbarthol o aelodau paneli mabwysiadu.<br><br>Caiff oedolion mabwysiedig eu hannog a'u cefnogi, lle bo modd, i gymryd rhan mewn hyfforddiant cyn mabwysiadu. | Mae Rhanbarthau ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yn annog unrhyw oedolyn sy'n mabwysiadu i ymuno â'r grwpiau hyn lle bo modd gwneud hynny. | Mae oedolion mabwysiedig yn darparu gwybodaeth hanesyddol a chyfoes sy'n amhrisiadwy i ddatblygiad gwasanaethau i gefnogi mabwysiadwyr, pobl ifanc mabwysiedig a theuluoedd biolegol.<br><br>Mae profiad oedolion mabwysiedig yn gwella. |
| **Plant a phobl ifanc** | | | |
| Mae plant a phobl ifanc yn cael cyfle gyda chymorth ac anogaeth briodol i rannu eu profiad o'r gwasanaeth. | Gweler uchod:<br>• Lleisiau Mabwysiadu<br>• Baromedr Mabwysiadu<br>• Connected<br><br>Bydd plant a phobl ifanc yn cael eu hatgyfeirio gan ranbarthau ac Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol at grwpiau priodol lle gallant rannu materion a gwybodaeth.<br><br>Bydd y Cyngor Ieuenctid Mabwysiedig yn rhannu barn a phryderon â'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol. | Bydd y rhanbarth/Asiantaeth Mabwysiadu Gwirfoddol yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc sydd ag angen am gymorth mabwysiadu yn cael ei atgyfeirio at y grŵp/gwasanaeth priodol.<br><br>Pan fo angen, gellir comisiynu eiriolwyr trwy sianeli arferol i roi cymorth priodol i blentyn neu berson ifanc sy'n dymuno rhannu ei farn.<br><br>Bydd uwch aelod o'r GMC yn mynychu cyfarfodydd y cyngor ieuenctid ac yn rhannu materion â'r grŵp ehangach. Ymdrinnir ag unrhyw gamau sy'n codi trwy'r | Mae profiad plant a phobl ifanc yn cael ei ddeall a'i ddefnyddio i lywio a datblygu arferion, yn enwedig o ran yr isod:<br><br>• Cyswllt<br>• Gwaith Taith Bywyd<br>• Cymorth Mabwysiadu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | fforymau priodol a'u dwyn yn ôl i'r cyngor. | |
| **Staff ac ymarferwyr** | | | |
| Mae barn a phrofiad y staff yn hysbys ac yn cael eu defnyddio ar gyfer gwella gwasanaethau lle bo hynny'n briodol. | Mae gweithwyr cymdeithasol yn cwblhau holiaduron profiad o banel<br><br>Mae gweithwyr cymdeithasol yn cwblhau holiaduron gwerthuso yn dilyn holl hyfforddiant a digwyddiadau'r GMC.<br><br>Mae staff ac ymarferwyr yn cymryd rhan mewn gweithgorau yn ymwneud â datblygu'r gwasanaeth. | Defnyddir gwybodaeth am brofiad y panel i wella prosesau'r panel a phrofiad mynychwyr.<br><br>Defnyddir gwybodaeth gan grwpiau datblygu i ddiweddaru ac addasu arferion pan fo'n briodol. Lle argymhellir newidiadau sylweddol, adroddir am y rhain i'r Bwrdd Rheoli Rhanbarthol. | Mae staff yn y rhanbarthau a'r Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac maent yn ymgysylltu, yn rheolaidd, â datblygu a gwella gwasanaethau. |

## GWEITHREDU AC ADOLYGU

Caiff y strategaeth hon ei chyflawni trwy arweiniad cadarnhaol gan Fwrdd Llywodraethiant y GMC, Byrddau Rheoli Rhanbarthol, Rheolwyr yn y rhanbarthau, yr Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol a'r awdurdodau lleol yn ogystal â chan y Tîm Canolog. Caiff y strategaeth ei hadolygu'n flynyddol ochr yn ochr â'r Modelau Optimaidd ar gyfer darparu gwasanaethau wrth i ni barhau i ddatblygu a chryfhau rhwydweithiau ymgysylltu.

**Atodiad 1 – Cyd-destun Cyfreithiol**

Y pwerau cyfreithiol sy'n galluogi'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yw Cyfarwyddiadau Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd (Cymru) 2015 Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 a elwir yn gyffredin yn 'Bwerau Cyfarwyddiadau'. Mae'r rhain yn tynnu sylw at y ffaith bod dyletswydd ar yr awdurdodau lleol sy'n ffurfio pob rhanbarth i ymgysylltu'n weithredol â defnyddwyr gwasanaeth *"er mwyn sicrhau bod barn a phrofiad defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hystyried wrth gyflawni'r swyddogaethau partneriaeth" 7 (4) (j)".*

Mae'r Pwerau Cyfarwyddiadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr gwasanaeth fod yn rhan o'r trefniadau llywodraethiant yn genedlaethol ac yn rhanbarthol:*12 (2)(i) Rhaid i awdurdodau lleol wahodd, a defnyddio eu hymdrechion gorau i sicrhau bod y canlynol yn dod yn aelodau o'r Grŵp Cynghori:*

*cynrychiolydd defnyddwyr gwasanaeth (person sydd wedi mabwysiadu plentyn, person mabwysiedig, rhiant biolegol plentyn mabwysiedig, person sydd wedi ceisio cymeradwyaeth neu sydd wrthi'n ceisio cymeradwyaeth fel darpar fabwysiadwr, neu blentyn y ceisir lleoliad mabwysiadu ar ei gyfer)*

Cydweithredu rhanbarthol – partneriaeth rhwng awdurdodau lleol: mae'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys mewn cytundeb partneriaeth fel a ganlyn:

*(l) Trefniadau i sicrhau bod barn a phrofiad defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu hystyried wrth gyflawni'r swyddogaethau partneriaeth;"*

Yn ogystal, mae Rheoliadau Mabwysiadu yn gosod dyletswyddau ar asiantaethau mabwysiadu i geisio barn plant ac oedolion. Y mwyaf perthnasol o'r rhain yw Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2007:

*Rheoliad 22 - 'Adolygiad o Ansawdd Gofal':*

*"(1)Rhaid i'r awdurdod lleol wneud trefniadau addas i sefydlu a chynnal system ar gyfer monitro, adolygu a gwella ansawdd y gwasanaethau mabwysiadu a ddarperir gan yr awdurdod lleol.*

*(2) Rhaid i'r system... wneud darpariaeth gan yr awdurdod lleol i'r (b) awdurdod lleol gael barn*

- *(i)* *rhieni mabwysiadol a biolegol a phlant sy'n cael eu mabwysiadu;*
- (ii) *unrhyw berson sy'n derbyn gwasanaethau gan yr awdurdod lleol neu eu cynrychiolwyr sydd yn ymwneud â mabwysiadu"*